

Cyngor Cymuned Pentir
Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fehefin 2019
yn Y Ganolfan, Glasinfryn am 7pm.

Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Broses cyfethol i ward Faenol yn sgil ymddiswyddiad Cyng Richard T Jones

Ethol Is-Gadeirydd

Derbyn cofnodion 23ain o Fai 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - dim cyfarfod wedi bod ers y Cyngor Llawn dwaetha 23ain o Fai ond angen cwblhau ffurflen Dreth o HSBC a'i dychwelyd erbyn 22ain o Awst

Ceisiadau Cynllunio Moel y Gest Rhosfryn Penrhosgarnedd C19/0510/25/LL Estyniad a newidiadau

Prydlesi Canolfan Penrhosgarnedd

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Ad-daliad Ysw
 - Cofrestr buddianau
 - Hyfforddiant ar lein
- Adroddiad
 - Hysbysfyrdd Ysb Gwynedd
 - Fynwent - Ymddangosiad Dant y Llew
 - Blodau Gwyllt

Materion y Cynghorwyr

Cyng J Griffiths Oes posib torri gwair o leiaf dau lwybr cyhoeddus os gwelwch yn dda sef
a) Llwybr Tros y Waen o Waen Wen i Lasinfryn a
b) Llwybr y Garth o Llwybr Tros y Waen i fyny i Lon y Bryn?

Cyng C E Hughes Datglygu Bryn Hywel

Cyng L A James Cais Adleoli Campws Coleg Menai Bangor i Parc Menai

Cyng D Jones-Morris
1. Symud ymlaen gyda'r trwsio o'r wal/fence ar waelod Coed y Maes.
2. Trafod yr argymhelliad mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud i ddatrus problemau parcio 'Cyfoeth Naturiol Cymru'.
3. Beth sydd wedi digwydd i'r mater o gor yrru ar hyd Ffordd Penrhos?

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 23^{ain} o Fai 2019 yn Eglwys Sant Pedr am 7.30pm

Presennol:

Y Cyng. C. E Hughes, J. Griffiths, D W Jones, T Anwyl-Williams, L James , M Baines, a H Griffiths
E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, B Jones, J Pierce, a M Lynch

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os oes angen

Derbyn cofnodion 11eg o Ebrill 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng J Griffiths ag a eilwyd gan y Cyng M Baines

Materion yn codi o'r cofnodion

Y Broses Ethol Cyng o Ward y Faenol

Y Clerc wedi cysylltu a Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd i'w hysbysu ond yn sgil prysurdeb Etholiad Ewrop o bosib heb dderbyn adborth yn ol ag oherwydd hynny cytunwyd i gynnwys yr eitem unwaith eto ar agenda Mis Mehefin

Hyfforddiant Unllais Ychydig o ymatebion oedd y Clerc wedi ei dderbyn yn ol i gynnal noson hyfforddiant ond 'roedd heno yn un o'r nosweithiau dan sylw

Atgoffwyd y cyngor ein bod gyda £200 yn ein cyllideb blynyddol tuag at hyfforddiant.

Parcio Penrhos - Dim datblygiad pellach

Hysbysfwrdd Ysg Gwynedd Cyng D Jones Morris ddim yn bresennol heno i gynnig unrhyw sylw.

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 24ain o Ebrill a 22ain o Fai

Dosbarthwyd Cofnodion o'r ddau gyfarfod.

Tra bod cofnodion Ebrill wedi eu cadarnhau yn gywir neithiwr yn unig fu cyfarfod Mai

Cafodd argymhellion Is-bwyllgor Cyllid neithiwr eu cymeradwyo

Clerc i gysylltu i gwyno am gynnig BHIB am ein cais am ad-daliad adnewyddu giat y fynwent

Cynghorwyr i edrych yn eu ardaloedd am leoliadau addas ar gyfer Diffibrylion ardal Caerhun., Glasinfryn, Treborth a Penrhos

Cyfrifon 2018-19

Darllenodd y Cadeirydd adroddiad yr Archwilwyr Mewnol parthed ein sefyllfa ariannol gyda nodyn yn cyfeirio at eu beirniadaeth am ein methiant i adolygu Risg yn flynyddol ddiffyg a'n methiant i gyhoeddi manylion cyswllt a.y.y.b. ar y Wefan sy'n ofynnol dan adran 55 ag 81 Deddf llywodareth leol 2000)

Tra'n derbyn y feirniadaeth mae'n bosib mae oherwydd fod y Wefan i lawr gan Gwmni Delwedd oedd yr ail bwynt o'r feirniadaeth.

Nid oeddem fel Cyngor wedi talu Delwedd ond hynny oherwydd iddynt anfon y Infois i Uned 15 Parc Menai ag e-bost Clerc@Cyngorpentir oedd ddim yn medru cael ei ddefnyddio.

Probleml honno bellach wedi ei datrys

Yr Is-Bwyllgor Cyllid yn argymhell i'r Cyngor Llawn dderbyn a chymeradwyo fod y Cadeirydd yn arwyddo y Fantolen Ariannol 2018-19 fel gall y Clerc ei anfon ymlaen i'r Archwilwyr Allannol BDO

Derbyniodd y Cyngor Llawn yr argymhelliad ag Arwyddodd y Cadeirydd y Fantolen Ariannol am 2018-19

Ceisiadau Cynllunio Troed y Fodol C19/0385/25/LL Estyniad a newidiadau **Dim Gwrthwynebiad**

Prydlesi Canolfan Penrhosgarnedd _Dim byd pellach i'w adrodd

Materion y Clerc

- Fynwent
- Torri gwair ychwanegol Wrth dalu am y torri ychwanegol llynedd bu i'r Clerc ofyn am Infois fyddai'n dangos yn gliriach pryd bu y toriadau. **Dim ymateb hyd yn hyn**
- Nosweithiau cyfarfodydd Trafodwyd opsiynau gan fod sawl un yn absennol ond cytunwyd cadw
 - Cyngor llawn Cadw at ail Nos Iau y mis
 - Is Bwyllgor Cyllid Cadw at Nos Fercher olaf y mis

Materion y Cynghorwyr

Cyng L James Mynegu pryder ynglyn a llecyn Penyffridd sydd tu allan i'n ffin ond fod CCG yn datblygu tai fforddiadwy ar ran o'r safle Datgelwyd pryder ynglyn a sawl ardal yn yng nghyffiniau Bangor ble mae perygl o or-ddatblygu fflatiau gan gynnwys o fewn ardal Cyngor Pentir. Y gred yw fod argymhellion datblygu tai Cenedlaethol yn cael blaenoriaeth dros anghenion lleol **Clerc i gysylltu a'r adran gynllunio**

Cyng J Griffiths Datgan fod aroglau carffosiaeth dychrynlyd yn ardal Treborth **Clerc i gysylltu a Dwr Cymru**

Cyng H Griffiths Datgan pryder fod Ragwort i'w weld ar gynnydd blith gwrychoedd ffyrdd cefn gwlad
Clerc i Gysylltu a Gwynedd

Cyng C E Hughes Holi os oedd unrhyw ddatblygiad parthed planu blodau gwyllt
Clerc i heb dderbyn ymateb o Maesgeirchen

Cyng T A Williams Dal heb_gael arwydd_Ffordd yn dangos Treborth **Clerc i Gysylltu a Gwynedd**

Daeth canmoliaeth i Ysgol Y Faenol yn dilyn eu arolwg gan Estyn **Clerc i Gysylltu a'r Ysgol i'w llongyfarch**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05